# Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir
# 25 Medi 2017

## SL(5)118 – Rheoliadau Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol sydd newydd ei sefydlu, sef corff annibynnol i gynghori Gweinidogion Cymru ac awdurdodau rheoli risg Cymru ar faterion yn ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

**Fe'u gwnaed ar:** 7 Awst 2017

**Fe'u gosodwyd ar:** 10 Awst 2017

**Yn dod i rym ar:** 11 Medi 2017

## SL(5)121 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r personau a'r categorïau o bersonau y caiff person yng Nghymru ddarparu gwybodaeth am fyfyrwyr iddynt. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhagnodi'r math o wybodaeth am fyfyrwyr y caniateir ei rhannu, a'r amgylchiadau y caniateir rhannu'r wybodaeth honno ynddynt.

**Deddf Wreiddiol:** Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009

**Fe'u gwnaed ar:** 7 Medi 2017

**Fe'u gosodwyd ar:** 11 Medi 2017

**Yn dod i rym ar:** 6 Hydref 2017

## SL(5)122 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Gyrchfannau) (Gweithgareddau Rhagnodedig) (Cymru) 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Bydd y Rheoliadau hyn yn caniatau i Lywodraeth Cymru rannu â sefydliadau addysg bellach yng Nghymru ddata y mae eisoes yn eu casglu am gyrchfannau dysgwyr unigol o amrywiol ffynonellau â sefydliadau ar lefel dysgwyr, cyn eu cyhoeddi ar ffurf cydgasgledig. Yn ogystal â galluogi sefydliadau i wirio eu data cyn eu cyhoeddi, bydd yn gwella hyder o ran gwybodaeth am berfformiad a gaiff ei chyhoeddi, ac yn cynorthwyo sefydliadau i wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr, i wneud penderfyniadau doeth am ba ddarpariaeth i'w chynnig, ac i roi cyngor priodol am yrfaoedd drwy wella eu dealltwriaeth o'r canlyniadau a gyflawnir gan eu dysgwyr.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992

**Fe'u gwnaed ar**: 7 Medi 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 11 Medi 2017

**Yn dod i rym ar**: 6 Hydref 2017

## SL(5)123 – Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefnau Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Awdurdod Iechyd Arbennig yw Addysg a Gwella Iechyd Cymru a sefydlwyd o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan Orchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

**Fe'u gwnaed ar**: 11 Medi 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 13 Medi 2017

**Yn dod i rym ar**: 5 Hydref 2017

# SL(5)124 – Gorchymyn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2017

## Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae'n sefydlu Awdurdod Iechyd Arbennig newydd, sef Addysg a Gwella Iechyd Cymru, ac mae'n gwneud darpariaeth ynghylch ei swyddogaethau a'i gyfansoddiad.

**Deddf Wreiddiol**: Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006

**Fe'u gwnaed ar**: 11 Medi 2017

**Fe'u gosodwyd ar**: 13 Medi 2017

**Yn dod i rym ar**: 5 Hydref 2017